# Sut i wneud cais am Wobr Mentora Cymheiriaid SAILS

**I gael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch, ewch i:**

**[www.abertawe.ac.uk/academi-cynwysoldeb/mentora-cymheiriaid](www.abertawe.ac.uk/academi-cynwysoldeb/mentora-cymheiriaid)**

## Bydd angen i chi wneud y canlynol:

**1.** Fynd i **sesiwn/sesiynau hyfforddiant** ar fentora cymheiriaid yn y Coleg.

✓Ceisiwch gymeradwyaeth gan gydlynydd y cynllun ar eich **Cofnod o Weithgarwch**

**2.** Cwblhau **o leiaf chwe awr o fentora** (wyneb yn wyneb neu ar-lein) mewn grŵp neu un i un. Gellir gwneud hyn dros fwy nag un flwyddyn academaidd.

✓Cofnodwch hyn ar ein **cofnod o sesiynau mentora**.

✓Ceisiwch gael e-bost gan o leiaf un o'r rhai rydych chi'n ei fentora, wedi'i anfon gan ei gyfrif e-bost yn y Brifysgol, i gadarnhau bod sesiwn wyneb yn wyneb neu sesiwn ar-lein wedi'i chynnal. Dylai'r e-bost hwn gadarnhau'r dyddiad y cafodd y sesiwn ei chynnal a hyd yr amser y gwnaethoch gyfarfod/siarad â'ch gilydd ar-lein.

✓Gofynnwch i gydlynydd y cynllun gyd-lofnodi eich **cofnod o sesiynau** er mwyn gwirio bod yr e-bost gan y sawl sy'n cael ei fentora o fyfyriwr sydd wedi'i gofrestru ar y cynllun.

**3. Cymryd rhan mewn** o leiaf un digwyddiad sefydlu, diwrnod agored neu ddiwrnod ymweld yn y Coleg/Ysgol **neu helpu i hyrwyddo'r** cynllun e.e. mewn digwyddiadau; ar y cyfryngau cymdeithasol; drwy ddylunio a/neu dosbarthu taflenni gwybodaeth/posteri; recriwtio ffrind i ddod yn fentor; neu drwy ddiweddaru hysbysfwrdd y Coleg.

✓Ceisiwch gymeradwyaeth gan gydlynydd y cynllun ar eich **Cofnod o Weithgarwch**

**4.** Rhoi **adborth** ar y cynllun e.e. drwy holiadur, sesiwn adborth a gynhelir gan y cydlynydd, neu drwy roi adborth i'r cydlynydd yn uniongyrchol.

✓ Ceisiwch gymeradwyaeth gan gydlynydd y cynllun ar eich **Cofnod o Weithgarwch**

**5. Cyfrannu at ddatblygiad y cynllun**. Gallai hyn gynnwys helpu gyda gwerthuso, gwneud awgrymiadau ar gyfer gwelliannau drwy adborth, mynychu digwyddiadau gwybodaeth a gynhaliwyd i recriwtio/hyfforddi mentoriaid neu roi senarios ar gyfer hyfforddiant yn y dyfodol.

✓ Ceisiwch gymeradwyaeth gan gydlynydd y cynllun ar eich **Cofnod o Weithgarwch**

**6.** Cwblhau **dyddiadur myfyriol** (350–400 o eiriau) ar y sgiliau rydych wedi'u meithrin a'r heriau a wynebasoch. Bydd angen i hyn ddangos eich bod wedi:

- Datblygu **dealltwriaeth o'r materion cyffredinol** y mae myfyrwyr yn eu hwynebu pan fyddant yn cyrraedd y Brifysgol am y tro cyntaf ac yn ystod eu cyfnod yma. Gellir gwneud hyn drwy'r hyfforddiant, rhyngweithio â'r bobl rydych chi'n eu mentora neu drwy eich profiad personol eich hunain. Ceir deunyddiau darllen pellach ar e-becyn cymorth SAILS.
- Bod yn **ddelfryd ymddwyn cadarnhaol** ar gyfer y rhai sy'n cael eu mentora; a'ch bod wedi rhoi gwybodaeth addas ac ateb cwestiynau am fywyd fel myfyriwr.

**7.** Cwblhau eich **dalen flaen**

**8.** Mynd â **chopi** o'ch tystiolaeth ar gyfer eich cofnodion (eich Cofnod o Weithgarwch wedi'i wirio, Cofnod o Sesiynau wedi'i wirio, Dyddiadur Myfyriol a Dalen Flaen). Gallwch lungopïo'r dystiolaeth, ei sganio i'ch cyfrifiadur neu dynnu llun. Mae'n bosibl y bydd Swyddfa Wybodaeth eich Coleg yn gallu eich cynorthwyo gyda hyn.

**9. Anfon** pob un o'ch dogfennau gwreiddiol ar fformat papur ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd i:

Academi Cynwysoldeb a Llwyddiant Dysgwyr Abertawe
Ystafelloedd 175/176, Adeilad Talbot
Campws Parc Singleton
Prifysgol Abertawe
SA2 8PP

**Rhaid i fyfyrwyr y flwyddyn olaf gyflwyno eu tystiolaeth o fewn dau fis i ddiwedd eu rhaglen**

# Cofiwch:

Gofnodi eich sesiynau a gweithgareddau mentora wrth i chi fynd yn eich blaen, gan ddefnyddio'r templedi ar y wefan.

# Unrhyw gwestiynau?

Cysylltwch â'ch cydlynydd cynllun neu anfonwch e-bost at cynwysoldeb@abertawe.ac.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg / This document is available in English [V. 1.4 14/08/2019]